No.

**CABINET**

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 5 Hydref, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd I.R. Buckley, C.M. Cowpe and Dr. I.J. Johnson.

## C103 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod y Cabinet gan atgoffa pawb oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd a chaiff y recordiad hwn ei archifo ar gyfer gwylio yn y dyfodol.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr 'fudo' eu hunain pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, a dywedodd, pe bai cyfranogwyr yn dymuno siarad, y dylent godi eu llaw (i gael eu gweld ar y sgrîn) neu ddefnyddio'r swyddogaeth 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob trafodaeth ar lafar ac nid trwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad.  Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd.

Croesawodd yr Arweinydd y Cynghorydd Sandra Perkes i'w chyfarfod cyntaf fel Aelod Cabinet, ar ôl cael y portffolio ar gyfer Tai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid.  Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Gwyn John am ei gymorth i reoli'r portffolio ynghyd â hi dros y misoedd diwethaf; gan gydnabod bod y Cynghorydd John wedi gwneud gwaith gwych a bod holl Aelodau'r Cabinet yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cynghorydd Perkes.

## C104 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd B.E. Brooks

## C105 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2023 fel cofnod cywir.

## C106 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## C107 PWYLLGOR CYNGHORI BAE CAERDYDD -

Roedd y Cynghorydd M. Wilson wedi mynd i gyfarfod chwarterol Pwyllgor Cynghori Bae Caerdydd. Dywedodd ei fod wedi cael ei benodi'n Gadeirydd yn y cyfarfod ac roedd y Cynghorydd N.C. Thomas wedi'i benodi'n Is-gadeirydd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at y cyn-gynghorydd Andrew Parker a oedd yno yn ei gyfarfod olaf ac a oedd wedi darparu gwasanaethau rhagorol i'r Pwyllgor am flynyddoedd lawer. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn drist ei fod wedi gadael y Pwyllgor gan ei fod bellach wedi ymddeol. Dymunodd y Pwyllgor yn dda iddo.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ei hun roedd y materion dan sylw yn cynnwys amserlen y cyfarfodydd, eitem gan Awdurdod Harbwr Caerdydd ar ddiogelwch mordwyo ac adroddiad diweddaru gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 6 Medi 2023 yn cael eu nodi.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wrth nodi'r cofnodion.

## C108 RHAGLENNI GWAITH CHWARTEROL Y CABINET – GORFFENNAF I FEDI 2023 A HYDREF I RAGFYR 2023 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd cynnwys, ymgysylltu ac ymgynghori â'r Aelodau ynglŷn â'r cynnydd hyd yma mewn perthynas â Rhaglenni Gwaith Chwarterol y Cabinet am y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023 a chadarnhau'r Rhaglen Waith Chwarterol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023.

Dywedodd yr Arweinydd wrth Aelodau'r Cabinet fod hwn yn eitem cadw tŷ safonol ond roedd yn ddefnyddiol i'r Aelodau gan fod yr atodiadau yn disgrifio gwaith a wnaed rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023 a gwaith a oedd wedi'i raglennu i'w wneud rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023, gan gynnwys hyperddolenni i adroddiadau i'r Aelodau ac aelodau'r cyhoedd gael mynediad atynt yn hawdd.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y diweddariadau i Raglen Waith Chwarterol y Cabinet ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023, Atodiad 1 yr adroddiad, yn cael eu cytuno.

(2) BOD Rhaglen Waith Chwarterol y Cabinet ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023, Atodiad 2 yr adroddiad, yn cael ei chymeradwyo.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Monitro cynnydd.

(2) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023.

**C109 ADRODDIAD DIWEDDARU AR Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN (AG/BA) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu'r Cabinet o'r cynnydd yn erbyn Cynllun Buddsoddi Lleol y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd yr atodiad a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad yn dangos ystod eang o gyllid, ond roedd hefyd yn manylu ar yr ymchwil ehangach a oedd yn sail i'r penderfyniadau. Roedd y Gronfa ei hun yn cwmpasu Cymru gyfan ond roedd yn cael ei gweinyddu ar gyfer Rhanbarth y De-ddwyrain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Byddai'r adroddiad hefyd yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried fel rhan o'i Flaenraglen Waith.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

(2) Y BYDDAI adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet sy'n nodi cynnydd yn erbyn y dyraniadau fel y nodir yn yr adroddiad.

(3) BOD yr adroddiad ac Atodiad A yn cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i'w hystyried fel eitem ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu perthnasol.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Cyflwyno mwy o ddiweddariadau i'r Cabinet.

(3) Diweddaru'r Pwyllgor Craffu fel rhan o'i Flaenraglen Waith.

**C110 ADOLYGIAD CYMUNEDOL BRO MORGANNWG – CYNIGION DRAFFT (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd â’r diben o roi diweddariad i'r Aelodau am Adolygiad Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg ac argymell ymateb i gynigion drafft y Comisiwn. Roedd y cynigion yn ystyried diwygio unrhyw anghysonderau lleol ac roeddent yn darparu ar gyfer cynnydd yn nifer y trigolion yn y Fro ar lefel Cyngor Cymuned. Roedd hwn yn ddarn o waith yr oedd gofyn i'r Cyngor ei wneud a byddai'n cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol yn ddiweddarach yr un diwrnod.

Roedd y cynigion a gyflwynwyd o ganlyniad i weithgor trawsbleidiol o fewn y Cyngor, felly roedd pob plaid wedi cyfrannu at y cynigion. Cynigiwyd creu wardiau newydd i gynrychioli demograffeg leol, er enghraifft yn y Glannau. Roedd yr Arweinydd yn disgwyl y byddai trafodaeth fanwl yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol a byddai unrhyw gyfeiriad gan y Pwyllgor hwnnw'n cael ei anfon yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried fel y bo'n briodol. Roedd modd i Gynghorau Tref a Chymuned ymateb i'r cynigion eu hunain.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr ymateb drafft i Gynigion Drafft y Comisiwn, fel y nodir ym mharagraffau 2.7 i 2.26 yr adroddiad, yn cael ei gymeradwyo.

(2) BOD y dyddiad cau o 30 Hydref 2023 ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Comisiwn yn cael ei nodi.

(3) Y BYDDAI yr adroddiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol ar 5 Hydref 2023 a'i anfon ymlaen at holl Glercod Cynghorau Tref a Chymuned ym Mro Morgannwg er gwybodaeth.

(4) BOD unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol yn cael eu cyfeirio yn ôl at y Cabinet i'w hystyried ymhellach.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ar ôl nodi ac ystyried Adroddiad Cynigion Drafft y Comisiwn ac er mwyn argymell ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw.

(2) Wrth nodi'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau.

(3) Galluogi ystyriaeth gan y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol, gan gofio y byddai pob Cyngor Tref a Chymuned yn gallu cyflwyno ei ymateb ei hun i'r Comisiwn.

(4) Rhoi'r cyfle i'r Cabinet ystyried ymhellach unrhyw argymhellion ychwanegol gan y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol.

**C111 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-2026: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2022/2023 (YGCGR) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO)**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am ganfyddiadau pumed Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) y Cyngor a cheisio cymeradwyaeth i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2023.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam fod y Cyngor yn cynnal yr adolygiad o'r CDLl ar hyn o bryd i fwrw ymlaen o 2026. Yr adroddiad a oedd yn cael ei gyflwyno heddiw oedd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2022/23 a byddai wrth symud ymlaen yn llywio'r CDLl diwygiedig a oedd ar hyn o bryd yn y cam cyn-adneuo. Dangosodd yr Adroddiad Monitro Blynyddol fod cynnydd da wedi'i wneud wrth weithredu'r rhan fwyaf o'r cynlluniau a'r polisïau ac, yn gyffredinol, roedd y strategaeth CDLl ddiwygiedig yn parhau'n gadarn. Cadarnhaodd yr Adroddiad Monitro, er bod y rhan fwyaf o dargedau'r Adroddiad Monitro yn parhau i gael eu bwrw, na chyflawnwyd rhai targedau mewn rhai ardaloedd, yn ymwneud yn bennaf ag ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan yr hinsawdd economaidd bresennol ledled Cymru a'r DU a fyddai'n parhau i gael eu monitro. Un o ofynion y Fframwaith Monitro a’r Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol oedd i Adroddiad Monitro Blynyddol gael ei gymeradwyo gan y Cyngor a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD pumed Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl yn cael ei gymeradwyo (yn amodol ar ystyried unrhyw newidiadau wedi’u hargymell gan y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2023 ac i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

(2) BOD Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl yn cael ei gyfeirio i’r Pwyllgor Craffu’r Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried. Pe bai'r Pwyllgor Craffu yn penderfynu derbyn Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl, ystyrid bod Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl wedi’i gytuno ac y gellid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2023.

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth Datblygu Cynaliadwy, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned,

Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoliadol, er mwyn gwneud newidiadau teipograffig neu fân newidiadau eraill yn ôl yr angen, cyn cyhoeddi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cydymffurfio â Rheoliad 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.

(2) Sicrhau craffu priodol ar yr adroddiad.

(3) Gwneud newidiadau teipograffig neu fân newidiadau eraill yn ôl yr angen heb fod angen ceisio cymeradwyaeth y Cabinet.

**C112 MATERION YR OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU OEDD YN FRYS -**

PENDERFYNWYD – BOD y materion canlynol, yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu eu bod yn frys am y rhesymau a roddwyd o dan y penawdau yn y cofnodion yn cael eu hystyried.

**C113 CYTUNDEB I WNEUD CYTUNDEB ATODOL GYDA'R DATBLYGWR AR GYFER ADEILADU FFLATIAU CYNGOR NEWYDD YN NHREGATWG, Y BARRI (AG/BA) (CRAFFU – CARTREFI A CHYMUNEDAU) – <u>(Brys er mwyn sicrhau y gall y Cyngor ymrwymo i berthynas gytundebol gyda'r Cwmni Rheoli Adeiladu enwebedig i sicrhau trosglwyddiad di-dor ac osgoi unrhyw oedi diangen i'r Cynllun)</u>**

Gofynnodd yr Arweinydd i'r Cabinet nodi'r adroddiad Rhan I gan y byddai'r drafodaeth ariannol fanwl yn cael ei chynnal fel rhan o adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar yr agenda a oedd yn amlinellu'r bwriad i ymrwymo i Gytundeb Atodol gyda datblygwr safle yn Nhregatwg, Y Barri ar gyfer fflatiau Cyngor newydd a cheisio awdurdod wrth symud ymlaen i reoli pob mater sy'n ymwneud â phenodi'r contractwr rheoli a'r isgontractwyr i ailddechrau gwaith adeiladu ar y safle hwnnw. Roedd manylion yr ystyriaethau caffael perthnasol wedi'u nodi yn yr adroddiad Rhan II y byddai'r Cabinet yn ei ystyried yn ddiweddarach ar yr agenda. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at gais o fewn argymhellion yr adroddiad Rhan I bod y weithdrefn penderfyniadau brys fel y nodir yn Adran 15.14 Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei defnyddio mewn perthynas â'r argymhellion yn adroddiad Rhan II a gytunwyd hefyd gyda'r Cadeirydd Pwyllgor Craffu perthnasol.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi a'i ystyried mewn cysylltiad ag adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar agenda'r cyfarfod.

(2) BOD y defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys, fel y'i nodir yn Adran 15.14 Cyfansoddiad y Cyngor, yn cael ei defnyddio mewn perthynas ag argymhellion yn yr adroddiad Rhan II.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Galluogi’r adroddiadau Rhan I a Rhan II gael eu hystyried gyda'i gilydd.

(2) Sicrhau y gallai'r Cyngor barhau i gyflawni'r cynllun yn Nhregatwg, Y Barri.

**C114 GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD –**

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o’r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

**C115 CYTUNDEB I WNEUD CYTUNDEB ATODOL GYDA'R DATBLYGWR AR GYFER ADEILADU FFLATIAU CYNGOR NEWYDD YN NHREGATWG, Y BARRI (AG/BA) (CRAFFU – CARTREFI A CHYMUNEDAU) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 13 A 14) –**
**(Brys er mwyn sicrhau y gall y Cyngor ymrwymo i berthynas gytundebol gyda'r Cwmni Rheoli Adeiladu enwebedig i sicrhau trosglwyddiad di-dor ac osgoi unrhyw oedi diangen i'r Cynllun)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu'r Cabinet am gynigion i ymrwymo i Gytundeb Atodol gyda Pegasus Developments (Barry) Ltd ar gyfer adeiladu fflatiau Cyngor newydd yn Coldbrook Road East, Tregatwg, Y Barri a phenodi Synergy Construction Management Ltd i barhau â'r gwaith adeiladu yn yr un cynllun gyda'r Cyngor yn gweithredu fel y Prif Gontractwr.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, i ffurfioli telerau ac amodau Cytundeb Atodol i Gontract Dylunio ac Adeiladu 2016 y Tribiwnlys Contractau ar y Cyd ("Contract Adeiladu Gwaith") rhwng y Cyngor a Pegasus Developments (Barry) Ltd ("y partïon").

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau a'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151, i gytuno a

rheoli pob mater sy'n ymwneud â phenodi Synergy Construction Management Ltd ac Is-gontractwyr, i ailddechrau gwaith adeiladu yn Coldbrook Road East, Y Barri.

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gytuno, paratoi, gweithredu a chwblhau yn ôl yr angen yr holl gytundebau a dogfennau contract, sy'n ymwneud â phenodi Synergy Construction Management Ltd ac Is-gontractwyr sy'n ofynnol i gwblhau'r gwaith adeiladu yn Coldbrook Road East, Y Barri.

(4) BOD y defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys, fel y'i nodir yn Adran 15.14 Cyfansoddiad y Cyngor, yn cael ei awdurdodi mewn perthynas ag argymhellion yn yr adroddiad Rhan II.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cytuno i roi'r gorau i ddylunio ac adeiladu'r Gwaith a chofnodi telerau'r cytundeb o fewn Cytundeb Atodol a fydd yn ffurfio cytundeb atodol a chyfochrog i'r Contract Adeiladu, y mae ei delerau yn amrywiol fel y cytunwyd rhwng y partïon.

(2) Mynd i'r afael â'r holl faterion sy'n ymwneud â phenodi adnoddau i gwblhau'r gwaith adeiladu yn Coldbrook Road East, Y Barri.

(3) Caniatáu penodi Synergy Construction Management Ltd ac Is-gontractwyr i gwblhau'r gwaith adeiladu yn Coldbrook Road East, Y Barri.

(4) Sicrhau y gallai'r Cyngor barhau i gyflawni'r Cynllun yn Nhregatwg, Y Barri.